# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 24 Ionawr 2013** |
| Amser: | **10:30 - 12:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2013(2)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Ian Summers (Swyddog)**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol**<br>**David Melding, y Dirprwy Lywydd** |

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2. Adolygiad o Effeithiolrwydd y Comisiwn

Yn unol ag egwyddorion Llywodraethu'r Comisiwn, cwblhawyd adolygiad o effeithlonrwydd y Comisiwn yn ddiweddar gan Ian Summers.

Cynhaliwyd trafodaethau â'r Comisiynwyr a nifer o unigolion eraill i lywio'r gwaith hwn. Yn gyffredinol, roedd y canfyddiadau'n ffafriol iawn ac yn amlygu'r ffaith bod cryn dipyn o gynnydd wedi'i wneud hyd yma yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Nodwyd rhai meysydd yr oedd angen eu datblygu ymhellach, gan gynnwys yr angen i ystyried materion strategol ac i asesu perfformiad. Roedd y Comisiynwyr hefyd yn gefnogol iawn i'r argymhelliad y dylid mabwysiadu agwedd gadarnhaol a rhagweithiol tuag at y cyfryngau a chyfeiriwyd at enghreifftiau da o hyn a gafwyd yn ddiweddar.

Nododd y Comisiynwyr yr argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad gan gytuno y byddent yn adolygu cynnydd ymhen chwe mis.

Cam i'w gymryd: Byddai crynodeb o'r adroddiad yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2012-13 fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu.

## 3. Adroddiad ar Gynnydd a Pherfformiad TGCh

Yn dilyn y penderfyniad o blaid datblygu gwasanaeth TGCh mewnol cymysg, cafodd y Comisiynwyr eu hadroddiad cynnydd cyntaf hyd yma.

Gwnaed cynnydd sylweddol ers y penderfyniad ddechrau mis Rhagfyr o blaid datblygu gwasanaeth mewnol cymysg. Roedd swyddogion y Comisiwn wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Atos i sicrhau cyfnod pontio didrafferth ac i sicrhau parhad y gwasanaeth. Mae gwaith ar y gweill i feithrin arbenigedd mewnol, gan gynnwys penodi Rheolwr Pontio profiadol dros dro. Gwnaed cynnydd hefyd o ran treialu cymwysiadau newydd a dulliau o weithio a fyddai'n cynnig rhagor o hyblygrwydd yn y dyfodol. Cytunwyd i baratoi nodyn i Peter Black ei anfon at yr Aelodau yn dweud bod modd gweld papurau'r pwyllgorau a'r Cyfarfodydd Llawn ar declynnau llechen.

Cytunodd y Comisiynwyr i beidio â chyhoeddi'r adroddiad o ystyried natur fasnachol y wybodaeth roedd yn ei chynnwys.

## 4. Arolwg Boddhad Defnyddwyr i Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth – Canfyddiadau a Chynllun Gweithredu

Cynhaliwyd arolwg boddhad defnyddwyr ymhlith Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ym mis Gorffennaf 2012. Cafodd y Comisiynwyr grynodeb o'r casgliadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â'r materion a amlygwyd.

Y sgôr boddhad cyfartalog ar gyfer yr arolwg yn gyffredinol oedd 7.6 gan yr Aelodau a 7.5 gan eu staff cymorth.

Caiff y canlyniadau a’r camau gweithredu eu rhannu â'r Aelodau a'u staff cymorth a chaiff arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid eu cynnal yn amlach i ddangos cynnydd ac i dynnu sylw at faterion eraill y dylid ymdrin â nhw.

Pwysleisiodd y Comisiynwyr yr angen i ddwyn canlyniadau arolygon o'r fath i'w sylw cyn gynted â phosibl yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai arolygon yn y dyfodol yn cynnwys cwestiynau mwy penodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau gwahanol.

Byddai'r wybodaeth a gasglwyd yn creu rhan o'r dangosyddion perfformiad allweddol, a byddai'r rhain yn cael eu hystyried gan y Comisiwn fis Chwefror.

## 5. Adroddiad ar y prif bwyntiau i’r Comisiwn Ionawr 2013

Roedd yr adroddiad hwn yn nodi materion o ddiddordeb i'r Comisiynwyr, yn unol â'r nodau strategol. Yn y dyfodol, bydd hyn yn rhan o becyn adroddiad perfformiad cynhwysfawr a fydd hefyd yn cynnwys yr adroddiad rheolaidd ar TGCh a dangosyddion perfformiad allweddol.

Nododd y Comisiynwyr y digwyddiadau a'r gweithgareddau allgymorth amrywiol a gynhaliwyd, gan bwysleisio pwysigrwydd estyn allan at bawb yng Nghymru, a gofynnwyd am wybodaeth i ddangos i ba raddau yr ymgysylltwyd â chyrff proffesiynol. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i dynnu mwy o sylw at gyfleoedd hyfforddi i staff cymorth. Gofynnodd y Comisiynwyr i'r cynllun prentisiaeth newydd gael ei ddefnyddio'n llawn gan bwysleisio y dylid tynnu sylw at lwyddiant y cynllun.

## 6. Papur i’w nodi – Cofnodion y Pwyllgor Archwilio

Yn eu cyfarfod ar 28 Tachwedd, trafododd y Comisiynwyr gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd. Nododd y Comisiynwyr y cofnodion yn ffurfiol.

## 7. Unrhyw Fusnes Arall

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch y rhestr termau deddfwriaethol Cymraeg a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Ionawr 2013**